# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd ELP Caparros**

**Ward: Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn **30.4.2025.** Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf ar 5.5.2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor a chabinet.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi dros 190 o ymholiadau etholwyr/tocynnau 'Rhoi Gwybod' yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal, gan gynnwys Carbon-wybodus a chwrs Arweinyddiaeth CLILC.

Rhagor o wybodaeth am fy ngwaith ar is-bwyllgorau - Amlosgfa Llangrallo a Phwyllgorau y Cabinet a chyrff allanol Cyngor ar Bopeth Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg, Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW), Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo Gellir dod o hyd iddo drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

Manylion y Cynghorydd - Y Cynghorydd Eugene Caparros

**Gweithgareddau Etholaethol**

Mae trigolion wedi codi llawer o faterion pwysig ar amrywiaeth o bynciau. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn ymwneud â phriffyrdd, coed a mannau gwyrdd. Mae wedi bod yn braf gweld llawer o'n problemau yn cael eu datrys.

Roeddwn yn falch iawn o'r derbyniad cynnes yn dilyn y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yng Nghae Chwarae Llangrallo sydd wedi dod yn fwy poblogaidd fyth gyda cherddwyr, trigolion ac sy'n parhau i ddenu pêl-droed ieuenctid. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Chyngor Cymuned Llangrallo Isaf i barhau i ddatblygu'r ardal i weddu i anghenion preswylwyr.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae nifer o goed wedi'u cwympo oherwydd clefyd coed ynn yng nghefn Lark Rise ac mae'r gwaith hwn yn parhau pan nodir ardaloedd o bryder. Edrychaf ymlaen at waith yn y dyfodol i helpu i adfer y man gwyrdd yn ogystal â gwelliannau mynediad i Fryn Bracla.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn ogystal â'm gwaith yn CBSP, roeddwn yn ffodus i gael fy ethol hefyd i Gynghorau Cymuned Bracla a Llangrallo. Yn y flwyddyn ddiwethaf roeddwn i'n ffodus i gadeirio'r ddau. Mae'n wych gweithio gyda'm cyd-gynghorwyr, swyddogion a phreswylwyr sy'n angerddol am faterion lleol ac sy'n gweithio'n galed iawn i wneud hwn yn lle gwell i fyw.

**Y Cynghorydd: Eugene Caparros** **Dyddiad: 17.06.25**